OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 106 (Cy.13)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau (Graddio) Carcasau Moch (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*20 Ionawr 2004*
Yn dod i rym - -	*31 Ionawr 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau (Graddio) Carcasau Moch (Diwygio) (Cymru) 2003; maent yn gymwys i Gymru'n unig a deuant i rym ar 31 Ionawr 2004.

Diwygio Rheoliadau (Graddio) Carcasau Moch 1994

2.—(1) Diwygir Rheoliadau (Graddio) Carcasau Moch 1994 (**3**) yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1), rhoddir y diffiniad canlynol yn lle'r diffiniad o "the Commission Decision"—

> ""the Commission Decision" means Commission Decision 88/234/EEC(**4**)) authorising methods for grading pig carcases in the United Kingdom as amended by Commission Decision 88/478/EEC(**5**), Commission Decision 92/557/EEC(**6**)), Commission Decision 93/445/EEC(**7**), Commission Decision 94/336/EEC(**8**) and Commission Decision 2003/750/EC(**9**)).".

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 1994/2155.
(**4**) OJ Rhif L105, 26.4.88, t.15.
(**5**) OJ Rhif L234, 24.8.88, t.11.
(**6**) OJ Rhif L358, 8.12.92, t.22.
(**7**) OJ Rhif L208, 19.8.93, t.36.
(**8**) OJ Rhif L150, 16.6.94, t.34.
(**9**) OJ Rhif L271, 22.10.03, t.24.